OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1162 (Cy.77)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*13 Ebrill 2005*
Yn dod i rym	- -	*15 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2, 3(1), (2)(b) a (4) a 4(1)(b) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach (**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru) 2005.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2005 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn arolygydd at ddibenion y prif Orchymyn;

mae i "mangre" yr un ystyr â "*premises*" yn y prif Orchymyn;

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993(**3**);

(**1**) 1967 p.8; mae adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn diffinio "competent authorities" at ddibenion y Ddeddf. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) a (2) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8; amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48).

(**2**) O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) O.S. 1993/1320; a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/3213, 1995/1358 a 2929, 1996/25, 1165 a 3242, 1997/1145 a 2907, 1998/349, 1121 a 2245 a 1999/2126 a 2726, 2001/2343, 2002/1067, 2003/1157 a 2004/2365.

ystyr "taten" ("*potato*") yw unrhyw gloronen Solanum tuberosum L. neu unrhyw had gwirioneddol neu blanhigyn arall ohono neu unrhyw rywogaeth arall o'r genws Solanum L. sy'n ffurfio cloron neu unrhyw gymysgryw ohono;

ystyr "taten berthnasol" ("*relevant potato*") yw unrhyw daten a dyfwyd yn yr Iseldiroedd yn ystod 2004 neu ers hynny; ac

ystyr "taten hadyd berthnasol" ("*relevant seed potato*") yw unrhyw daten berthnasol sydd wedi'i bwriadu i'w phlannu.

Hysbysu o fewnforion

3.—(1) Ni chaiff neb, wrth gynnal busnes, fewnforio tatws i Gymru y mae'r person hwnnw'n gwybod eu bod, neu y mae ganddo sail resymol dros amau eu bod, yn datws perthnasol, oni bai ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd, o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad yr oedd yn bwriadu eu mewnforio i Gymru, o'i fwriad i fewnforio'r tatws o dan sylw, ac ynghylch—

(a) amser, dyddiad a dull arfaethedig eu mewnforio;

(b) y pwynt mynediad arfaethedig ar gyfer dod â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) cyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws; ac

(e) Rhif adnabod y cynhyrchydd.

(2) Rhaid i unrhyw berson a fewnforiodd, ar ôl 1 Medi 2004 a chyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, datws hadyd perthnasol i Gymru, wrth gynnal busnes, roi, o ran y tatws hynny, hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd erbyn 3 Mai 2005 fan bellaf ynghylch—

(a) y dyddiad y mewnforiwyd y tatws;

(b) y pwynt mynediad lle doed â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) cyrchfan neu gyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws a fewnforiwyd; ac

(e) Rhif adnabod y cynhyrchydd.

Pwerau arolygydd

4.—(1) Mae darpariaethau'r erthygl hon i fod yn gymwys heb ragfarnu'r arfer gan arolygydd, o'r pwerau a roddwyd iddo gan y prif Orchymyn.

(2) Os bydd arolygydd yn gwybod neu os bydd ganddo seiliau rhesymol dros amau bod unrhyw datws perthnasol yn debygol o gael, neu fod wedi cael, eu glanio yng Nghymru yn groes i erthygl 3(1), caiff —

(a) at ddibenion gwirio cydymffurfedd â'r prif Orchymyn; neu

(b) at ddibenion arfer unrhyw un o'i bwerau o dan baragraff (4),

ac ar ôl dangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ei awdurdod i weithredu, gymryd y camau ym mharagraff (3).

(3) Y camau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) yw—